

Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw

Archwilio'r
Eglwys
Uniongred



Llawlyfr Athrawon

Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw

Archwilio'r Eglwys Uniongred

Leslie J. Francis, Tania ap Siôn
a Diane Drayson.

Darluniau: Phillip Vernon.


Cyfieithiad: Nant Roberts.



Bear Lands Publishing

Yn y Gyfres Crefyddau'r Byd Heddiw, mae Rhys a Sara'n dysgu am brif grefyddau'r byd yn eu gwlad eu hunain. Y saith stori yn y gyfres yw:

- Archwilio Islam
- Archwilio Iddewiaeth
- Archwilio'r Eglwys y Plwyf
- Archwilio'r Eglwys Uniongred
- Archwilio Hindwâeth
- Archwilio Bwdhaeth
- Archwilio Sikhiaeth



Cyhoeddwyd gyntaf 2009 gan y Ganolfan Genedlaethol
Addysg Grefyddol,
Prifysgol Bangor
(noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru).

Ail argraffiad (ar-lein) 2019 gan
Bear Lands Publishing,
Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen,
Abergwyngregyn,
Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

Archwilio'r Eglwys Unionged

Y stori

Mae gan Rhys a Sara ddau ffrind ysgol o'r enw Anna a Michael. Cristnogion yw Anna a Michael, ac maen nhw'n cyflwyno i Rhys a Sara gredoau ac ymarferion allweddol yr Eglwys Unionged Ddwyreiniol. Roedd rhieni tad a mam Anna a Michael wedi'u geni a'u magu yn Rwsia. Wrth i'r plant ymweld â'r Eglwys Unionged, maen nhw'n clywed y canu, yn aroglir aroglarth, ac yn rhyfeddu wrth weld yr harddwch. Maen nhw'n dathlu gŵyl y Pasg, ac yn dysgu am arwyddocâd y gwasanaeth canol nos. Maen nhw'n astudio sgrin yr eiconau ac yn clywed yr hanes am yr eiconau. Maen nhw'n archwilio'r ymrwymiad Cristnogol i ofalu am rai dan anfantais trwy astudio gwaith sefydliad elusennol Unionged Dwyreiniol yn St Petersburg. Maen nhw'n dysgu am yr ymrwymiad Cristnogol i addysg datblygu trwy archwilio pam y mae teulu Anna a Michael mor awyddus i ymwneud â chynnyrch 'Masnach Deg' a 'Traidcraft'.

Yr elfennau sylfaenol

Mae nifer o wahanol llinynnau o fewn traddodiad Unionged Dwyreiniol Cristnogaeth, yn union fel mae nifer o wahanol enwadau o fewn y traddodiad Gorllewinol (fel Catholigion, Anglicaniaid, Methodistiaid, ac ati). Y ddau llyn mwyaf cyfarwydd o'r traddodiad Unionged yw'r Eglwys Unionged Rwsiaidd a'r Eglwys Unionged Roegaidd. Mae llinynnau eraill yn cynnwys yr Eglwys Unionged Americanaidd a'r Eglwys Unionged Ethiopiaidd. Fel mae'r enwau'n awgrymu, mae'r llinynnau'n cael eu henwi ar ôl gwledydd. Ac i bobl y Gorllewin, efallai bod y llinynnau'n edrych yn debyg i'w gilydd. Ond, mewn gwirionedd, mae gwahaniaethau pwysig yn eu gwahanu.

Mae Cristnogion Unionged Dwyreiniol yn credu:

- mewn un Duw, sy'n cael ei ddeall trwy berson Duw y Tad, person Duw y Mab, a pherson Duw yr Ysbryd Glân;
- bod cyfle i fodau dynol gael eu hachub, hynny wedi'i wneud yn bosib trwy i Iesu Grist farw ac atgyfodi, a thrwy hynny mae'r berthynas rhwng bodau dynol a Duw yn cael ei hailsefydlu;
- yn awdurdod yr ysgrythurau a'r traddodiad;
- ym mhwsigrwydd y seintiau sy'n parhau i weithio yn y nefoedd, y rhai y mae'n bosib cysylltu â nhw;
- y nod o uniad cyfriniol Duw.

Yn eu harferion Cristnogol mae Cristnogion Unionged Dwyreiniol yn rhoi pwyslais ar y sacramentau sanctaidd. Trwy'r sacramentau, mae bodau dynol yn cael eu tynnu i berthynas agosach â Duw. Y sacramentau yw:

- bedydd: bedyddio babanod, fel arfer;
- eneiniad ag olew crism: eneiniad ag olew wedi'r bedyddio a derbyn yr unigolyn yn gyflawn i'r gymuned Unionged Ddwyreiniol;
- cymun: caiff y cymun ei ystyried fel y sacrament pwysicaf, y mae'n bosib ei rannu gyda'r rhai sydd wedi'u bedyddio a'u heneinio;
- eneiniad ag olew iachau: eneiniad o'r rhai sy'n glaf, ag olew;
- cyffes: pryd y bydd pobl yn cyffesu wrth offeiriad am unrhyw bethau na ddylen nhw fod wedi'u gwneud. Mae'r offeiriad yn cyhoeddi maddeuant Duw. Bydd hyn, fel arfer, yn digwydd cyn sacrament y cymun; priodas;
- ordeiniad: y rhai hynny sy'n cael ei galw i fod yn offeiriad.

Pennod I Ymweld ag Eglwys Uniongred

Yr Eglwys Uniongred Ddwyreiniol yn Nghymru

Pan fydd teuluoedd wedi symud i fyw i Gymru neu Loegr o wledydd lle mae'r traddodiad Uniongred wedi bod yn gryf, mae'n naturiol iddyn nhw fod eisiau dod â'u traddodiad Cristnogol nodedig gyda nhw. Mae hyn wedi golygu sefydlu eglwysi, a gofalu bod eglwysi o'r fath yn cael eu gwasanaethu'n briodol gan offeiriad Uniongred. Yn y stori, roedd rhieni tad a mam Anna a Michael wedi'u geni a'u magu yn Rwsia, ac roedd tad a mam Anna a Michael wedi parhau'n ffyddlon i'r Eglwys Uniongred Rwsiaidd. Gan eu bod yn byw yng Nghymru erbyn hyn, roedd yn golygu bod yn rhaid iddyn nhw deithio nifer dda o filltiroedd i gyrraedd yr Eglwys Uniongred agosaf i fynd i'w gwasanaeth ar y Sul.

Mae rhai yn dadlau mai yng Nghymru y sefydlwyd y Traddodiad Uniongred, yn nyddiau cynnar Cristnogaeth, cyn i'r Traddodiad Gorllewinol ddod yn flaenllaw yno. Mae'r farn yn gyson â'r ddadl bod Dewi Sant, Nawddsant Cymru, wedi'i gysegru'n Esgob gan Batriarchiaid Jerwsalem. Pan ddigwyddodd y Sgism Mawr rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn 1054, fe wahanwyd yr Eglwys Gristnogol ym Mhrydain, a oedd yn rhan o Eglwys Rufain, yn llwyr oddi wrth yr Eglwys Uniongred.

Mae rhai yn olrhain cam pwysig yn ailsefydlu'r Traddodiad Uniongred yng Nghymru i 1973, pryd yr ordeiniwyd Barnabas yn offeiriad ym Mharis ac iddo ddychwelyd i Gymru i fyw bywyd mynachiaid ac ymwneud â chenhadaeth i'r genedl Gymreig. Bu farw Archimandriad Barnabas yn 1996 yn 80 oed.

Fe ailymddangosodd yr Eglwys Uniongred yn y Gymru fodern ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda sefydlu Eglwys Nicolas Sant yn ardal y dociau yng Nghaerdydd, gan deuluoedd llongwyr Groegaidd. Mae'r eglwys yn parhau i fod yn gartref i'r gymuned Uniongred hynaf a mwyaf yng Nghymru, sydd o bosib yn gwasanaethu 2,000 o blwyfolion, y rhan fwyaf ohonyn nhw â'ugwreiddiau yng Nghyprus, ond yn byw yn ne-ddwyrain Cymru.

Eglwysi Uniongred arwyddocaol eraill yng Nghymru yw Eglwys Holl Saint Cymru ym Mlaenau Ffestiniog, Capel Dewi Sant a Nicolas Sant yn Llanelli, a chymuned Uniongred Sant Sechareia a'r Santes Elisabeth sy'n addoli yn Eglwys y Santes Fair yn Abertawe.

Arweinwyr Uniongred yng Nghymru

Yn 1979 ordeiniwyd Cymro arall (sy'n Gymro Cymraeg), Iqoumen Deiniol fel offeiriad Uniongred i ymgymryd â chenhadaeth yng Nghymru. Sefydlodd y Tad Deiniol gynulleidfa'r Cristnogion Uniongred

sy'n addoli ym Mlaenau Ffestiniog. Archimandriad Deiniol yw offeiriad Eglwys Holl Saint Cymru ac abad Mynachlog Eglwys yr Amddiffyniad Sanctaidd, sydd hefyd ym Mlaenau Ffestiniog. Mae'r gwasanaethau yn cael eu cynnal yn Gymraeg yn bennaf, ond hefyd mewn Groeg, Saesneg, a'r iaith Slafonig. Mae Rhys a Sara yn ymweld ag Eglwys Holl Saint Cymru ac maen nhw'n cael croeso mawr gan y Tad Deiniol.

Cynllunio Eglwys Uniongred

Mae cynllun ac awyrgylch yn agweddau pwysig ar Eglwys Uniongred. Mae adeilad yr eglwys a'r addoliad yn yr eglwys wedi'u bwriadu i gynnig cip ar y nefoedd i'r bobl. Mae arogl persawrus yr aroglarth a sain nodedig y gerddoriaeth wedi'u bwriadu i gludo'r addolwyr at borth y nefoedd.

Mae pen dwyreiniol yr eglwys (y pen sy'n wynebu'r cyfeiriad lle mae'r haul yn codi bob bore) wedi'i wahanu oddi wrth weddill yr eglwys gan sgrin fawr. I'r dwyrain o'r sgrin, mae'r nefoedd. Yno, mae'r waliau a'r nenfwd wedi'u haddurno'n odidog, a chyda sêr euraid yn aml. Ar y sgrin (sy'n cael ei galw'n iconostasis) y caiff yr eiconau eu harddangos. Mae drysau yn y sgrin sy'n caniatáu i'r offeiriad fynd yn ôl a blaen rhwng nefoedd a daear, ac yn caniatáu i'r bobl gael cip ar ddirgelwch y nefoedd y tu ôl i'r eiconau. Mae'r offeiriad yn symud yn barhaus rhwng nefoedd a daear, ac yn dod â'r bobl yn nes at Dduw trwy weinyddu'r sacramentau.

Yn draddodiadol, mae prif gorff yr eglwys Uniongred yn cael ei gadw'n glir heb lawer o gadeiriau na dodrefn. Sefyll y mae'r gynulleidfa yn ystod y gwasanaeth, ond mae seddi i'w cael o gwmpas yr ochrau ar gyfer yr henoed a'r rhai sy'n fethedig.

Defodau o fewn yr Eglwys Uniongred

Wrth iddyn nhw fynd i mewn i'r eglwys, cafodd Rhys a Sara eu cyflwyno i dair agwedd bwysig ar ddefodau'r gymuned Uniongred.

Yn gyntaf, fe wnaethon nhw arwydd y groes ar draws rhan uchaf y corff, yn y ffordd draddodiadol. Fe wnaethon nhw ddal bawd a dau fys cyntaf eu llaw dde gyda'i gilydd, gan blygu'r ddau fys arall ar gledr eu llaw. Yna, fe wnaethon nhw godi'r bawd a'r ddau fys cyntaf at eu talcen, yna at eu brest, wedyn at yr ysgwydd dde ac yn olaf at yr ysgwydd chwith. Mae arwydd y groes yn arwyddocaol iawn fel symbol yn yr Eglwys Uniongred Ddwyreiniol. Mae'n adlewyrchu cred ganolog Cristnogaeth yn Nuw fel Trindod: un Duw sydd, ac mae ei natur a'i waith yn cael eu deall orau trwy berson Duw y Tad; Duw y Mab; a Duw yr Ysbryd Glân. Mae siâp y groes yn ein hatgoffa o waith canolog achubiaeth Duw ym marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist, a ganiataodd i sianeli gael eu

hagor unwaith eto rhwng Duw a bodau dynol. Mae Cristnogion yn dangos eu hymrwymiad i'r berthynas yma gyda'u hunan yn gyfan trwy gyffwrdd eu talcen (meddwl), eu calon (enaid), a'u hysgwyddau (cryfder).

Yn ail, fe wnaethon nhw oleuo cannwyll oedd ar gael iddyn nhw yng nghefn yr eglwys. Yna, fe aethon nhw â'r canhwylau wedi'u goleuo i flaen yr eglwys, yn araf. Gosododd Rhys a Sara'r canhwylau o flaen y sgrin yn ymyl y canhwylau oedd eisoes wedi'u gosod yno gan aelodau eraill o'r gynulleidfa. Mae golau yn symbol Cristnogol pwysig, yn adlewyrchu'r goleuni y daeth Iesu Grist gydag ef i'r byd, a'r goleuni y mae'n parhau i'w roi i'r byd.

Yn drydydd, cusanodd Rhys a Sara un o'r eiconau arbennig a oedd wedi'i osod o flaen y sgrin fawr,

cyn cerdded yn ôl i gymryd eu lle yng nghorff yr eglwys. Caiff parch mawr ei roi i'r seintiau sydd yn y nefoedd ac sy'n cael eu darlunio yn yr eiconau. Nid i'r ddelwedd ffisegol ei hun y mae'r parch yn cael ei roi. Darparu cyswllt rhwng nefoedd a daear y mae'r ddelwedd ffisegol.

Mae Cristnogion Uniongred yn credu bod Duw'n defnyddio adnoddau materol fel cyfrwng i ddod â bodau dynol yn nes at Dduw (er enghraifft, eiconau, dŵr, olew, bara a gwin). Nid yw'n angenrheidiol egluro sut yn union mae hyn yn digwydd, mae'n Ddirgelwch Sanctaidd. Mae Cristnogaeth Uniongred yn rhoi pwyslais ar y gwirionedd sydd i'w gael mewn profiad yn hytrach nag ar ddadleuon diwinyddol cymhleth sydd wedi'u llunio i resymoli ac egluro sut mae'r Dirgelion yn gweithio.

Gweithgareddau

Cymysgu a matsio

Torrwch allan y naw bocsy sydd ar y daflen waith 'Ysgrifennu Stori', ac yna torrwch bob bocsy yn dri darn: y pennawd, y wybodaeth a'r llun. Cymysgwch yr holl rannau a'u rhoi mewn amlen. Rhannwch y plant yn barau neu grwpiau gan roi amlen i bob grŵp neu bâr. Bydd gofyn i'r plant fasio'r pennawd, y wybodaeth a'r llun yn gywir.

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Ysgrifennu Stori', (fe allech chi addasu'r stori fel y mynnwch chi i unrhyw genre, fel dyddiadur neu erthygl bapur newydd).

Ymweld ag Eglwys Uniongred

Ewch i ymweld ag Eglwys Uniongred a chwiliwch am y mannau sy'n cael eu nodi yn y stori. Beth sy'n wahanol yno i beth sydd yn y llyfr, a beth sydd yr un fath?

Defnyddio'r synhwyrâu wrth addoli

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Archwilio'r synhwyrâu' Bydd rhai enwadau Cristnogol yn defnyddio mwy ar y synhwyrâu wrth addoli nag enwadau eraill. Mae'r Eglwys Uniongred yn credu bod defnyddio'r synhwyrâu yn rhan bwysig o addoliad, am eu bod yn gallu tynnu pobl yn nes at Dduw.

Archwiliwch gyda'r plant addoliad Cristnogol arall sy'n defnyddio llai ar y synhwyrâu, er enghraifft, traddodiad symlach anghydfurfiol, (lle na fydd canhwylau, aroglarth, delweddau ac ati, yn cael eu defnyddio). Trefnwch ymweliad â chapel fel y gall y plant gymharu'r dulliau gwahanol iawn hyn o addoli.

Pennod 2 Dathlu'r Pasg

Y Pasg yw prif ŵyl y flwyddyn Gristnogol - mae marwolaeth ac atgyfodiad Iesu'n ganolog mewn Cristnogaeth. Fel mae'r Nadolig Uniongred Dwyreiniol yn disgyn ar adeg wahanol i'r Nadolig yn yr Eglwys Orllewinol, mae'r Pasg Uniongred Dwyreiniol hefyd ar adeg wahanol i Basg yr Eglwys Orllewinol, oherwydd eu bod yn dilyn calendr gwahanol. Mae'r Eglwys Uniongred Ddwyreiniol yn defnyddio Calendr Julius tra mae'r eglwys Gorllewinol yn defnyddio Calendr Gregori.

Paratoi ar gyfer y Pasg

Fel mewn llawer o eglwys Cristnogol, mae dathliadau Sul y Pasg yn digwydd ar ôl cyfnod pwysig o baratoi. Mae llawer o Gristnogion Uniongred yn peidio â bwyta rhai bwydydd neilltuol yn ystod y cyfnod o 40 diwrnod, sef y Garwys, (er enghraifft, cig, wyau, a chynnyrch llaeth). Mae ymprydio'n bwysig yn yr Eglwys Uniongred am ei fod yn helpu i ddatblygu hunan reolaeth.

At hynny, mae nifer o wasanaethau'n cael eu cynnal yn ystod yr wythnos sy'n arwain at Sul y Pasg, sy'n nodi digwyddiadau pwysig yn y stori Feiblaidd sy'n arwain at y bedd gwag. Er enghraifft:

- Sul y Palmwydd yw'r Sul cyn Sul y Pasg. Bydd croesau wedi'u gwneud o ddail palmwydd yn cael eu rhannu i'r gynulleidfa i gofio am Iesu'n mynd i mewn i Jerwsalem a'r bobl yn taenu dail palmwydd ar hyd y ffordd yr oedd Iesu'n mynd.
- Mae'r Dydd Iau Mawr yn galw i gof hanes Iesu'n golchi traed y disgyblion yn y Swper Olaf,

fel gweithred o ostyngieddrwydd a gwasanaeth. Yn yr Eglwys Uniongred, bydd esgobion yn ailberfformio hyn trwy olchi traed eu hofffeiriadon.

- Mae Dydd Gwener Mawr yn nodi'r diwrnod y cafodd Iesu ei groeshoelio, ac y bu farw. Mewn Eglwys Uniongred, bydd lliain ac eicon o Iesu arno yn cael ei gludo i mewn, a'i osod yng nghanol yr eglwys. Mae rhai o'r defodau'r un fath â defodau angladd, er enghraifft, ymgasglu o gwmpas yr un sydd wedi marw gan gario canhwyllau, cusanu'r eicon o Iesu, a dod â blodau.
- Mae'r Dydd Sadwrn Mawr yn nodi'r diwrnod ar ôl i Iesu gael ei groeshoelio. Pan fydd hi bron yn hanner nos, bydd y lliain a'r eicon o Iesu arno'n cael ei gario allan o'r eglwys, a'r pryd hynny fe fydd yr eglwys yn symbol o'r bedd gwag.

Sul y Pasg

Cyn hanner nos, mae gorymdaith y tu allan i'r eglwys, sy'n cael ei harwain gan yr offeiriad. Ar hanner nos, mae'r offeiriad yn llafarganu emyn y Pasg, dair gwaith, gan gyhoeddi atgyfodiad Iesu a'i oruchafiaeth dros farwolaeth. Mae'r drysau'n cael eu hagar, ac mae'r offeiriad a'r bobl yn mynd i mewn i'r adeilad. Mae hyn yn symboleiddio agor y bedd a darganfod ei fod yn wag. Mae'r eglwys dywyll yn cael ei llenwi â golau. Mae hyn yn symboleiddio goleuni'r atgyfodiad a'r bywyd a ddaw o ganlyniad i hynny. Trwy gydol cyfnod y Pasg mae'r bobl yn cyfarch ei gilydd gyda'r geiriau, 'Atgyfododd Crist!' ac yn ymateb gyda'r cyfarchiad, 'Atgyfododd yn wir!'

Gweithgareddau

Teimladau ar adeg y Pasg

Mae dathlu'r Pasg mewn Eglwys Uniongred yn ysgogi nifer o wahanol emosiynau, ac mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn cydgerdded, yn symbolaidd, â'r Cristnogion cyntaf un, ac yn cydymdeimlo â nhw, yn ystod y cyfnod yma. Archwiliwch gyda'r plant yr emosiynau y byddai'r Cristnogion cyntaf yn debygol o fod wedi'u teimlo wrth i lesu gael ei groeshoelio a'i gladdu. Lluniwch restr o'r emosiynau. Yna, archwiliwch gyda'r plant yr emosiynau y byddai'r Cristnogion cyntaf yn debygol o fod wedi'u teimlo wrth iddyn nhw ddarganfod bod lesu wedi atgyfodi. Lluniwch restr o'r emosiynau rheini hefyd. Lluniwch gerdd gan gynnwys yr emosiynau hyn.

Fe allai'r fframwaith canlynol fod yn ddefnyddiol:

O (emosiwn y croeshoelio a'r claddu) i (emosiwn yr atgyfodi),

O (emosiwn y croeshoelio a'r claddu) i (emosiwn yr atgyfodi),

O (emosiwn y croeshoelio a'r claddu) i (emosiwn yr atgyfodi),

O (emosiwn y croeshoelio a'r claddu) i (emosiwn yr atgyfodi).

Atgyfododd Crist!

Atgyfododd yn wir!

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Gwneud cerdyn tro', ac ysgrifennwch y gerdd ar y cerdyn.

Ystyr y Pasg

Heddiw, mae'r Pasg yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Gwnewch arolwg syml ymysg plant Cyfnod Allweddol 2, i ddarganfod beth mae'r Pasg yn ei olygu i blant eich ysgol chi. Gofynnwch i'r plant orffen un o'r brawddegau canlynol:

I mi, y peth pwysicaf am y Pasg
yw ...

NEU

Dydi'r Pasg ddim yn bwysig i mi, oherwydd ...

Ar ôl gwneud yr arolwg, meddyliwch am categorïau y gallech chi roi'r ymatebion i'r frawddeg gyntaf ynddyn nhw. Gallech labelu'r categorïau hyn (fel bwyta wyau siocled, helpa wyau Pasg, marwolaeth ac atgyfodiad lesu, bywyd newydd, gwyliau etc.) neu eu dosbarthu'n fwy cyffredinol (fel rhesymau crefyddol a rhesymau sydd heb gysylltiad crefyddol). Gwnewch yr un peth gyda'r ail gwestiwn.

Edrychwch faint o ymatebion sydd ym mhob categori a dangoswch y canlyniadau mewn nifer o wahanol fformatau; er enghraifft, tabl rhifol, siart bar, neu siart cylch.

Fe fyddai'n bosib defnyddio canlyniadau'r arolwg fel rhan o wasanaeth yn yr ysgol a fyddai'n ymwneud ag ystyr y Pasg i bobl ifanc heddiw. Pe byddech chi'n awyddus i gael mwy o ymatebion, fe allech chi hefyd ofyn i blant Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion cyfagos, wneud yr un arolwg hefyd a rhannu'r canlyniadau â nhw. Fe fyddai'n bosib gwneud yr arolwg yn fwy cymhleth trwy ychwanegu meysydd ychwanegol fel gwryw a benyw, a Christnogion a phobl sydd heb fod yn Gristnogion.

Yn y llyfr stori, mae Rhys a Sara yn cymryd rhan mewn dathliad grymus iawn o'r Pasg, yn llawn symbolaeth. Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Dathlu'r Pasg' am ddathliadau Pasg yr Eglwys Uniongred, ac archwiliwch y symbolaeth gyda'r plant.

Cysylltu'r ymarfer â'r stori

Cysylltwch ddathliadau'r Pasg heddiw, mewn Eglwys Uniongred, â'r stori yn y Beibl am farwolaeth ac atgyfodiad lesu. Mae'n bosib ymdrin â hyn mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft, nodwch agweddau unigol y stori ar gardiau bach, a gwneud yr un peth â rhannau perthnasol y dathliadau heddiw. Gofynnwch i'r plant fatsio'r cardiau sy'n ymwneud â'r dathlu â'r cardiau cyfatebol sy'n ymwneud â'r stori. Dyma awgrymiadau ynghylch beth i'w gynnwys ar y cardiau:

Stori

Y golled a'r tristwch a deimlwyd gan ffrindiau lesu ar ôl iddo farw.

Y bedd a'r garreg fawr ar y fynedfa iddo wedi i lesu gael ei gladdu ynddo.

Ffrindiau lesu'n mynd i weld y bedd ar fore'r Pasg.

Ffrindiau lesu'n dod o hyd i'r garreg fawr wedi'i symud oddi ar y fynedfa i'r bedd.

Y llawenydd ar ôl i lesu atgyfodi.

Dathlu

Yr eglwys mewn tywyllwch.

Drysau'r eglwys wedi cau.

Yr orymdaith o gwmpas yr eglwys.

Drysau'r eglwys yn cael eu hagar a'r bobl yn gorymdeithio i mewn i'r adeilad.

Yr eglwys yn llawn goleuni a phawb yn cyfarch ei gilydd, 'Atgyfododd Crist!' 'Atgyfododd yn wir!'

Pennod 3 Astudio'r eiconau

Beth yw eicon?

Yn yr Eglwys Unionged, lluniau crefyddol yw eiconau sy'n cael eu defnyddio i helpu pobl weddio. Gwneir eiconau o'r seintiau, o Iesu, yr apostolion, angylion, ac o olygfeydd o'r Beibl. Mae'r eiconau i'w gweld mewn cartrefi Unionged yn ogystal ag yn yr Eglwys Unionged. Mae'r Eglwys Unionged yn credu na ddylai Duw y Tad, na Duw yr Ysbryd Glân fyth gael eu portreadu'n uniongyrchol mewn eiconau. Er hynny, mae Duw y Mab yn cael ei bortreadu ar y ffurf ymgawdoledig fel Iesu Grist – mae portreadau cyffredin mewn eiconau yn dangos Crist bychan gyda'r Santes Fair (tudalen 17) a Christ fel Pancrator (tudalen 9). Caiff y ddau eicon pwysig yma eu gosod fel arfer ar bob ochr i'r drws canol yn sgrin yr eiconau (tudalen 3).

Mae'n bosib llunio eiconau o nifer o wahanol ddeunyddiau, ond rhaid i'r arwyneb fod yn wastad neu wedi'i wastatáu. Mae hynny'n eu rhwystro rhag bod yn dri dimensiwn, gan y byddai cynnig parch a defosiwn i beth tri dimensiwn yn amhriodol. Mae'n bwysig nodi nad yw Cristnogion Unionged yn addoli'r eiconau. Yn hytrach, maen nhw'n dangos parch a defosiwn i'r ffigurau sy'n cael eu portreadu yn yr eiconau. Duw yn unig sy'n cael ei addoli. Yn y nefoedd y mae'r ffigurau a'r golygfeydd sy'n cael eu darlunio yn yr eiconau, a chynnig ffordd i'r nefoedd y mae'r eiconau eu hunain. Felly, pan fydd y plant Unionged yn y stori, Anna a Michael yn dweud bod y seintiau sydd yn yr eiconau 'yma gyda ni yn wir', mae hyn yn cael ei ddeall yn yr ystyr yma. Mae'r ffigurau a'r golygfeydd sy'n cael eu darlunio yn yr eiconau yn edrych yn anarferol, fyddan nhw byth yn cael eu darlunio mewn ffordd realistig. Y rheswm am hynny yw am eu bod yn symbolaidd iawn ac yn dangos y cymeriadau ar eu ffurf nefolaidd. Mae'r eurgylchoedd oddi amgylch eu pennau'n dangos presenoldeb Duw gyda nhw.

Sgrin yr eiconau

Mae'r paentiadau ar ddrysau sgrin yr eiconau yn cael eu dangos ar dudalen 12. Mae'r paentiadau'n darlunio'r Cyfarchiad (pan ymddangosodd yr Angel Gabriel i'r Santes Fair, gan ddatgan y byddai'n rhoi genedigaeth i Fab Duw) a'r Pedwar a ysgrifennodd yr Efengylau. Mae'n dangos pa mor ganolog yw dysgeidiaeth y pedair Efengyl. Ynghyd â'r ddau eicon o Iesu Grist ar bob ochr i'r drysau canol, mae Cristnogion Unionged yn cael eu hatgoffa mai'r ffordd at Dduw yw trwy Iesu Grist, sydd wedi agor y drysau rhwng nefoedd a daear.

Santes Anna

Santes Anna oedd mam y Santes Fair, Mam Duw.

Mae'r traddodiad yma i'w gael yn Efengyl apocryffaidd Iago. Roedd Anna'n briod â Joachim, a doedd gan y ddau ddim plant. Ar ôl i angel ymweld â hi, fe roddodd Anna enedigaeth i Mair, ac fe gyflwynodd Anna Mair i wasanaeth Duw yn y Deml. Caiff gwahanol agweddau ar y stori yma eu darlunio'n aml mewn eiconau. Mae un darlun poblogaidd o Santes Anna i'w weld ar dudalen 13 yn y stori, lle mae'n dal Mair fechan. Mewn eiconau eraill bydd y Fair fechan yn dal Iesu bychan.

Sant Cadwaladr

Roedd Sant Cadwaladr yn byw yn y seithfed ganrif o'r Cyfnod Cyffredin, ac ef oedd Brenin Celtaidd olaf Prydain. Ychydig o fanylion sydd gennym ni am ei fywyd a'i farwolaeth. Ond mae'r pwyntiau cyffredinol sy'n cael eu cyflwyno yn y stori yn rhoi crynodeb defnyddiol i ni o'r prif draddodiadau. Caiff Sant Cadwaladr ei fawrygu yn yr Eglwys Unionged am ei fod yn cynrychioli'r ddelfryd o frenhiniaeth sy'n gwasanaethu Duw a phobl Duw. Yn y ffynhonnell Ganoloesol, The Triads, caiff Cadwaladr ei gydnabod fel un o'r tri 'bendigaid'.

Defnyddiwyd y ddraig goch oedd ar faner Cadwaladr gan Harri Tudur, a honnai ei fod yn un o ddisgynyddion Cadwaladr. Ac mae'r ddraig yn parhau i fod yn symbol pwysig yng Nghymru hyd heddiw.

Caiff Sant Cadwaladr ei gysylltu ag Eglwys Llangadwaladr (a elwid yn wreiddiol yn Eglwys Ael), ac yno yn ôl y traddodiad y mae wedi'i gladdu.

Santes Melangell

Mae fersiwn lawnach o'r stori am y santes o'r seithfed ganrif, Santes Melangell, a Thywysog Powys i'w chael ar un o'r taflenni gwaith.

Y Santes Fair fel Theotokos

Mae'r eicon o'r Santes Fair sydd ar dudalen 17 yn ei darlunio fel Theotokos (mam Duw), am ei bod yn cario Iesu bychan. Caiff Mair ei galw'n 'fam Duw' yn yr ystyr ei bod wedi rhoi genedigaeth i fab Duw a ymgawdolwyd. Yr ymgawdoliad sy'n ganolog i Gristnogaeth Unionged, ac fe ddylai popeth arall gael ei ddeall mewn perthynas â'r ymgawdoliad. Mae'r symbolaeth o osod yr eiconau'n ofalus mewn Eglwys Unionged yn adlewyrchu hyn ochr yn ochr â symbolaeth y defodau.

Oherwydd ei statws fel 'mam Duw', mae Mair yn bwysig iawn yn y traddodiad Unionged, ac mae nifer o wyliau pwysig wedi'u cysegru iddi hi yn y flwyddyn Unionged.

Yr eiconograffydd

Dywedir fod yr eiconau yn cael eu 'hysgrifennu' yn hytrach na'u 'paentio'. Mae ysgrifennu'r eicon yn act

o addoliad a defosiwn ar ran yr eiconograffydd, ac mae hynny'n cael ei ddangos trwy'r gwaith paratoi a'r dull o fynd ati i'w lunio. Rhaid i'r eiconograffydd weddio cyn dechrau ar y gwaith, ac nid yw'n rhoi ei lofnod ar yr eicon. Rhaid i'r eiconograffydd ddilyn rheolau pendant sydd wedi'u trosglwyddo i lawr dros y canrifoedd. Y rheolau hyn sy'n penderfynu pob

agwedd ar yr eicon. Er enghraifft, siâp, nodweddion a mynegiant yr wynebau, yr ystum, y lliwiau a'r gwrthrychau eraill sy'n mynd gyda nhw. Oherwydd hynny, fe ddylai'r cymeriadau sy'n cael eu darlunio yn yr eiconau fod yn hawdd eu hadnabod i'r rhai sydd wedi'u magu yn y traddodiad Unionged.

Gweithgareddau

Gweld y darlun llawnach

Gofynnwch i'r plant ddod â rhai o'u hoff ffotograffau i'w dangos i weddill y dosbarth (gall y ffotograffau fod yn lluniau o aelodau eu teulu neu ffrindiau, lluniau o'r plant eu hunain, neu o bobl y maen nhw'n eu hedmygu). Bydd angen i'r plant allu egluro:

- pwy sydd yn y llun;
- pam y maen nhw'n hoffi'r llun;
- sut maen nhw'n teimlo wrth edrych ar y llun;
- ble mae'r bobl sydd yn y llun ar hyn o bryd;

Pam y mae pobl yn tynnu ffotograffau?

Mae ffotograffau o bobl yn fwy na dim ond lluniau - maen nhw'n golygu rhywbeth i'w perchnogion.

Cysylltwch hyn â'r eiconau yn y llyfr stori, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y nodiadau i athrawon. Yn yr achos yma, mae'r bobl sy'n cael

eu darlunio ar yr eiconau yn bobl arbennig o hanes Cristnogaeth. Heddiw, mae Cristnogion Unionged yn credu bod y bobl sydd ar yr eiconau yn y nefoedd. Mae gweddio o flaen yr eiconau fel edrych trwy ffenestr a chael cipolwg ar y nefoedd. Caiff eiconau eu defnyddio mewn addoliad Unionged, er mwyn dod â phobl yn nes at Dduw.

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Llunio eicon',

Arwyddion o rywbeth arbennig

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Stori Santes Melangell'. Edrychwch yn ofalus ar yr aralleiriad o stori Santes Melangell a'r ddelwedd ohoni yn y llyfr stori (gallwch ddod o hyd i ragor o ddelweddau o Santes Melangell ar y rhyngwyd). Pa arwyddion welwch chi sy'n dangos bod Santes Melangell yn rhywun arbennig?

Pennod 4 Helpu eraill

Elusen Unionged

Fel traddodiadau Cristnogol eraill, mae'r Eglwys Unionged Ddwyreiniol yn gweithredu ei ffydd yn y byd trwy ddarparu help a chefnogaeth i'r rhai sydd mewn angen. Mae hyn yn tarddu o esiampl a dysgeidiaeth Feiblaidd. Yn y stori, caiff yr elusen ei gweld fel rhywbeth sy'n ymateb i'r gorchmynion Beiblaidd pwysicaf, sef caru Duw a charu eich cymydog.

Mae'r bennod yma wedi'i seilio'n glos ar waith Cymuned Pokrov yn St Petersburg, Rwsia, sy'n enwi'r gorchmynion yma mewn perthynas â'i chenhadaeth. Mae llawer o elusennau Unionged Dwyreiniol yn ymwneud â gwasanaeth Cristnogol mewn gwahanol rannau o'r byd. Mae'n bosib ymchwilio i'r rheini trwy ddefnyddio'r rhyngrwyd.

Cymuned Pokrov

Sefydlwyd Cymuned Pokrov yn elusen gofrestredig yn y flwyddyn 2000, ac mae'n canolbwyntio'i gwaith ar helpu pobl sy'n wael, sy'n oedrannus ac sy'n ddi-gartref yn St Petersburg. Mae modryb Michael ac Anna, Anti Natasha, yn aelod o'r gymuned honno sy'n gymuned o ferched yn bennaf. Statws heb fod yn eglwysig sydd gan yr elusen, ac mae hynny wedi ei gwneud yn bosib iddi gydweithio â sefydliadau crefyddol a sefydliadau sydd heb fod yn grefyddol, fel ei gilydd.

Daw'r aelodau o wahanol gefndiroedd, gan ddod â gwahanol sgiliau gyda nhw y gallan nhw'u cyfrannu i'r gymuned. Mae rhai yn ddoctoriaid a nyrsys, eraill yn benseiri, adeiladwyr, cyfreithwyr, dylunwyr, cyfarwyddwyr, a ffotograffwyr sy'n gallu gweithio'n wirfoddol, a chynnig eu hamser yn ogystal â'u sgiliau.

Gweithgareddau

Ysgrifennu at Anti Natasha

Yn y llyfr stori, mae'r plant yn cael llythyr oddi wrth eu modryb, Anti Natasha, sy'n perthyn i gymuned arbennig yn St Petersburg, yn Rwsia.

Ysgrifennwch lythyr at Anti Natasha yn diolch iddi am ei llythyr. Efallai yr hoffech chi sôn am rai o'r pethau canlynol:

- beth oeddech chi'n ei weld yn ddiddorol yn ei llythyr;
- unrhyw gwestiynau yr hoffech chi eu gofyn i Anti Natasha;
- enghreifftiau o bethau rydych chi wedi'u gwneud yn ddiweddar (neu'n bwriadu eu gwneud) i helpu pobl eraill. (Fe benderfynodd Rhys a Sara ymweld â' u nain oedd wedi bod yn sâl).

Beth yw ein hanghenion?

Nodwch beth yw anghenion pobl (er enghraifft, bwyd, dŵr, cwsg, dillad, gofal meddygol, cynhesrwydd, ac arian). Nodwch beth yw anghenion eraill pobl, pethau mwy haniaethol (er enghraifft, cyfeillgarwch, cariad, arweiniad, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, teimlo eu bod yn perthyn a bod ganddyn nhw bwrpas mewn bywyd a bod ystyr i fywyd).

Yn y stori, mae'r gymuned yn gofalu am anghenion corfforol pobl yn St Petersburg sy'n wael, yn hen ac yn ddi-gartref. Mae'r gymuned yn gofalu am eu hanghenion eraill hefyd, yr anghenion sydd heb fod yn anghenion corfforol. Beth mae'r gymuned yn ei wneud i ofalu am anghenion corfforol y bobl y mae yn ei helpu? Beth mae'r gymuned yn ei wneud i ofalu am anghenion eraill, sydd heb fod yn anghenion corfforol, y bobl y mae yn ei helpu?

Ar ôl darllen llythyr Anti Natasha, mae Rhys a Sara yn penderfynu mynd i weld eu nain sydd wedi bod yn sâl. Sut mae Rhys a Sara yn gallu helpu eu nain gyda'i hanghenion corfforol? Sut mae Rhys a Sara yn gallu helpu eu nain gyda'i hanghenion eraill sydd ddim yn anghenion corfforol?

Ymchwiliwch waith elusen Unionged Ddwyreiniol.

Mae mudiad yr elusen Unionged Ddwyreiniol yn y stori yn seiliedig ar waith cymuned Pokrov yn St Petersburg, Rwsia. Chwiliwch ar y rhyngrwyd am 'Pokrov community', a dysgwch ragor am waith y gymuned honno, a sut mae eu prosiectau'n datblygu.

Pennod 5 Masnach Deg a Traidcraft

Fel mae'r stori'n amlygu, caiff y Nadolig ei gysylltu â phethau fel coed Nadolig, addurniadau, canu carolau, a rhoi a derbyn anrhegion a chardiau. Mae'r bennod yma'n atgoffa'r darllenwyr bod y Nadolig, o safbwynt Cristnogol, yn dathlu genedigaeth ostyngedig Iesu, yr un yr oedd ei genhadaeth yn ymwneud â phobl dlawd a rhai dan anfantais gymdeithasol. Mae'r darllenwyr hefyd yn dysgu sut mae teulu Anna a Michael yn dilyn esiampl a dysgeidiaeth Iesu wrth ddathlu'r Nadolig trwy'r thema masnach deg.

Masnach Deg

Mae'r logo Masnach Deg, erbyn hyn, yn label cyfarwydd sydd i'w gweld ar sawl math gwahanol o fwydydd fel ffrwythau, llysiau, coffi a gwin, yn ogystal ag ar gynhyrchion eraill heblaw bwyd, fel defnydd cotwm a blodau ffres. Wrth brynu cynnyrch sy'n arddangos y logo Masnach Deg ceir sicrwydd bod y defnyddiwr yn prynu cynnyrch sy'n cydymffurfio â safonau masnach, sylfaenol, penodol sy'n cael eu monitro'n rheolaidd. Yn yr Iseldiroedd yr ymddangosodd y label Masnach Deg gyntaf (1988).

Traidcraft

Mae Traidcraft yn gwmni sy'n masnachu'n deg a hefyd yn elusen datblygu, a sefydlwyd yn 1979.

Mae egwyddorion sylfaenol Traidcraft yn tanatgu ei waith, ac mae'r rhain wedi'u seilio ar egwyddorion Cristnogol; yn neilltuol, yr egwyddorion Cristnogol 'cariad', 'cyfiawnder', a 'gwasanaeth', fel sy'n cael eu darlunio ym mywyd a dysgeidiaeth Iesu. Fel y Gymuned Pokrov yn y bennod flaenorol, mae gwaith Traidcraft yn cael ei ysgogi gan y gorchymyn Beiblaidd i garu eich cymydog. Fel yn achos cymuned Pokrov, caiff hyn ei ddehongli fel gwasanaeth ymarferol i eraill ac mae'n ymwneud â materion ysbrydol a moesol, yn ogystal â phethau materol. Mae Cristnogion yn

credu bod yr holl fodau dynol wedi'u gwneud ar lun a delw Duw (stori'r creu yn Llyfr Genesis) a'i bod hi'n deg i bawb gael cyfle i fyw eu bywydau i'w llawn botensial. Mae gwaith Traidcraft mewn Masnach Deg yn canolbwyntio ar sefydlu partneriaethau tymor hir gyda chynhyrchwyr bychain, a'u helpu i greu busnesau sefydlog a chynaliadwy. Mae Traidcraft yn deall cynladwyedd mewn termau amgylcheddol yn ogystal ag mewn termau dynol, ac yn helpu ei bartneriaid i ddilyn 'stiwardiaeth gyfrifol', mewn perthynas â'r amgylchedd.

Gwasanaeth Cristnogol

Un o brif nodau'r bennod yma yw darlunio gwasanaethu Cristnogol trwy ddyddu am Fasnach Deg. Mae egwyddorion ac ymarfer Masnach Deg yn cael eu cefnogi gan grwpiau sawl ffydd wahanol, a chan rai sydd heb fod yn perthyn i grŵp ffydd hefyd. Er bod y rhesymau cyffredinol sy'n cael eu rhoi er cefnogi mentrau fel Masnach Deg yn eithaf tebyg yn achos y rhai sy'n ymwneud â nhw, yn aml fe fydd credoau a gwerthoedd mwy penodol yn tanatgu'r rhesymau cyffredinol sy'n cael eu cyflwyno. Yn yr achos yma, mae'n canolbwyntio ar deulu Uniongred Dwyreiniol a Traidcraft, ac mae'r naill a'r llall yn cael eu dylanwadu gan greddoau Cristnogol amlwg sy'n rhoi ystyr i'w gweithredoedd yn y byd. Mae'r credoau Cristnogol penodol perthnasol a enwir yn cynnwys:

- y gorchymyn Beiblaidd i garu eich cymydog;
- dilyn yr esiampl a osodwyd gan fywyd a dysgeidiaeth Iesu a'i waith gyda'r rhai sy'n wael ac aelodau o'r gymdeithas sydd dan anfantais gymdeithasol;
- bod yr holl fodau dynol wedi'u gwneud ar lun a delw Duw.

Gweithgareddau

Gofalu am eraill

Gan ddefnyddio'r rhyngwrwyd, chwiliwch am ragor o wybodaeth am waith yr elusen Traidcraft. Bydd y cwestiynau canlynol yn helpu i roi canolbwynt i'r gweithgaredd:

- Oes datganiad o genhadaeth gan Traidcraft sy'n egluro'r hyn mae'n ceisio'i wneud?
- Enwch y prosiectau y mae Traidcraft yn ymwneud â nhw?
- Ym mha rannau o'r byd y mae Traidcraft yn gweithio? Ym mha ffordd y gall pobl gefnogi Traidcraft?

Fe allech chi roi her i rai o'r plant ateb cwestiwn pellach: oes unrhyw beth ar y wefan sy'n pwyntio

at gefndir Cristnogol Traidcraft?

Rhoi ar adeg y Nadolig

Archwiliwch pa anrhegion y bydd y plant yn dymuno'u cael fel anrhegion Nadolig, pam eu bod eisiau'r pethau hynny, a sut maen nhw'n teimlo pan fyddan nhw'n eu cael. Ydyn nhw'n gwybod unrhyw beth am ble mae'r anrhegion yn cael eu gwneud, a phwy sy'n eu gwneud?

Yn y llyfr stori, mae teulu Anna a Michael yn credu bod y Nadolig yn amser i helpu rhai sy'n dlawd ac o dan anfantais, gan ddilyn esiampl Iesu. Dyna pam y maen nhw'n ceisio annog pobl i brynu cynnyrch masnach deg o'u siop leol, siop y gornel, ar adeg y Nadolig.

Geiriau Allweddol

abades	merch yng ngofal abaty o leianod	offeiriad	gweinidog ordeiniedig, sy'n gyfrifol am weinyddu'r sacramentau
Archimandrite	yn yr achos hwn, teitl anrhydeddus offeiriad mynachaid	eicon	yn yr Eglwys Unionged, llun ag iddo arwyddocâd crefyddol (yn dangos Iesu, y seintiau, a golygfeydd Beiblaidd) sy'n cael ei ddefnyddio mewn gweddi ddefosiynol
masnach deg	masnachu sy'n cwrdd â safonau masnach sylfaenol penodol	sacrament	defod Gristnogol y credir iddi gael ei sefydlu gan Iesu, sy'n defnyddio elfennau materol allanol, fel dŵr, bara a gwin fel arwydd o'r gras ysbrydol oddi mewn
ympryd	ymwrthod â rhai mathau, neu bob math, o fwyd/diod am resymau crefyddol am gyfnod penodol	sant	un eithriadol sanctaidd, sy'n byw gyda Duw yn y nefoedd, ac sy'n ganolbwynt ar gyfer defosiwn crefyddol
calendr Gregori	y calendr mwyaf poblogaidd sy'n cael ei ddefnyddio yn y byd heddiw, wedi'i enwi ar ôl Pab Gregori XIII, ac mae'n fersiwn diwygiedig o Galendr Iŵl	Santes Anna	mam y Forwyn Fair
eurgyrch	cylch o olau o amgylch pen Iesu a'r saint, yn darlunio sancteiddr wydd (presenoldeb Duw)	Sant Cadwaladr	brenin Celtaidd olaf Prydain a Nawddsant y genhadaeth Unionged yng Nghymru
cell meudwy	mynachlog	Y Forwyn Fair	mam Duw (h.y. Duw yn ymgnawdoledig fel Iesu)
eiconograffydd	arlunydd sy'n arbenigo mewn llunio eiconau o Iesu a'r saint yn yr Eglwys Unionged	Santes Melangell	abades o'r seithfed ganrif a gafodd dir gan Dywysog Powys i adeiladu cell meudwy yn ôl y stori enwog am Santes Melangell a'r ysgyfarnog
sgrin eiconau	sgrin sy'n gwahanu prif ran yr eglwys (y ddaear) oddi wrth yr allor (y nefoedd)		
calendr Iŵl	calendr a gyflwynwyd gan Iŵl Cesar, ac mae'n parhau i gael ei ddefnyddio mewn rhai rhannau o'r byd heddiw yn ogystal ag yn yr Eglwys Unionged		

Ysgrifennu stori

Dychmygwch eich bod wedi ymweld ag Eglwys Uniongedr gyda ffrind sy'n addoli yno. Ysgrifennwch stori am eich ymweliad, gan roi manylion am bob rhan welsoch chi, a'r pethau oedd yno. Bydd y lluniau a'r disgrifiadau yma yn eich helpu.

sgrin yr eiconau

Mae'r sgrin yn gwahanu'r man lle mae'r allor oddi wrth y gynulleidfa. Mae'r drysau a'r llenni sydd ar y sgrin yn cael eu hagor a'u cau ar wahanol adegau.



eiconau

Mae lluniau o seintiau yn cael eu harddangos i helpu pobl weddio. Mae'r eurgylchoedd o olau sydd o gwmpas pen pob sant yn atgoffa pobl bod Duw gyda'r seintiau.



côr

Mae cerddoriaeth yn rhan bwysig o'r addoliad. Mae côr yn canu geiriau'r litwrgi yn y gwasanaeth gyda'r offeiriad.




stand canhwyllau

Wrth i'r bobl ddod i mewn i'r eglwys, maen nhw'n goleuo canhwyll, ac yn ei rhoi ar stand arbennig neu mewn basn o dywod. Mae'r gannhwyll yn symbol o'u gweddïau.



stand yr eicon

Mae rhai eiconau wedi'u gosod yn isel er mwyn i'r bobl allu eu cusanu wrth ddod i mewn i'r eglwys.



seddau

Mae rhai seddau yn yr adeilad, ond mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn sefyll. Maen nhw'n meddwl ei bod hi'n bwysig sefyll wrth addoli Duw.



Beibl

Er mwyn dangos pa mor bwysig yw'r Beibl, caiff ei gario mewn gorymdaith o amgylch y bobl cyn iddo gael ei ddarllen fel rhan o'r gwasanaeth.



arogldarth

Yn y gwasanaeth, mae'r offeiriad yn chwifio'r thuser, fel bod y mwg ac arogl yr aroglarth yn cael ei gario i bob rhan o'r adeilad.



gwisgoedd

Roedd yr offeiriad wedi'i wisgo mewn gwisgoedd gwych, i ddangos pa mor bwysig yw'r adegau addoli. Dim ond ar adeg yr addoliad y caiff y rhain eu gwisgo.



Archwilio'r synhwyrau

Pan fu Rhys a Sara yn ymweld â'r Eglwys Unionged, roedd rhaid iddyn nhw ddefnyddio'u holl synhwyrau i werthfawrogi beth oedd yn digwydd yno. Darllenwch bennod 1 a 2 y stori eto i weld sut roedden nhw'n defnyddio'u synhwyrau.


gweld




clywed




arogli



cyffwrdd



blasu




Gwneud cerdyn tro

Y Pasg yw'r adeg o'r flwyddyn pan fydd Cristnogion yn cofio am Iesu'n marw ar y groes, ac yn atgyfodi i fywyd newydd ar Sul y Pasg. Mae rhai Cristnogion yn anfon cardiau ar y Pasg gyda lluniau wyau arnyh nhw. Mae'r wy yn symbol o fywyd newydd.

Fe fydd arnoch chi angen




dalen o gerdyn A4
cyllell grefft a mat

pren mesur
pensiliau



Beth i'w wneud

1. Plygwch y cerdyn yn ei hanner. Ar y tu blaen, tynnwch linell ysgafn lawr y canol.
2. Agorwch y cerdyn. Ar y tu blaen, tynnwch lun hanner wy ar un ochr i'r llinell yma, gan ddechrau 1cm o'r top, a gorffen 2cm o'r gwaelod. Torrwch amlinelliad yr hanner wy â'r gyllell.
3. Tynnwch lun hanner arall yr wy ar ochr arall y llinell, gan ddechrau 2cm o'r top a gorffen 1cm o'r gwaelod. Torrwch yr amlinelliad yma.
4. Tynnwch un ochr yr wy tuag atoch chi a gwthiwch yr ochr arall oddi wrthyh chi, gan wneud plygiad lle mae wedi'i farcio.
5. Addurnwch y siâp wy trwy ei liwio'n goch neu trwy dynnu llun patrymau arno.



Wyau Pasg

Yn yr Eglwys Unionged, mae wyau wedi'u berwi'n galed a'u lliwio'n goch yn cael eu rhannu ar Sul y Pasg. Mae'r lliw coch yn ein hatgoffa o waed Crist. Fel rheol, bydd yr wyau'n cael eu paratoi ar y dydd lau cyn y Pasg.

Fe fydd arnoch chi angen

wyau ffres

$\frac{3}{4}$ llond cwpan o finegr

olew llysiau


dŵr

lliw coch ar gyfer bwydydd

pelî gwllân cotwm a chadach sych


Beth i'w wneud

1. Llenwch sosban i'w hanner â dŵr. Rhewch y lliw coch a'r finegr yn y dŵr.
2. Gwisgwch fenig rwber neu blastig cyn cyffwrdd yr wyau (am resymau iechyd a diogelwch). Rhewch yr wyau yn y dŵr yn ofalus.
3. Codwch y dŵr i ferwi, ac yna troi'r gwres i lawr. Eu gadael i fudferwi am 15 munud.
4. Gofynnwch i oedolyn eich helpu i godi'r wyau o'r dŵr berwedig.
5. Wedi iddyn nhw oeri ychydig, rhwbiwch yr wyau â gwllân cotwm gydag olew arno, i'w gwneud yn sgleiniog, a'u sychu wedyn â chadach sych, glân.
6. Gweini'r wyau yn oer.



Gêm i'w chwarae

Curwch eich wy yn ysgafn yn erbyn wy eich ffrind, nes bod un o'r ddau wy yn cracio. Yr un sydd â'r wy cyfan sy'n ennill. Daliwch i chwarae yn erbyn pobl eraill, i weld sawl wy y medrwch chi eu cracio.



Mae'n bosib i chi liwio'r wyau â lliwiau eraill hefyd. Yn lle defnyddio lliw coch ar gyfer bwydydd, rhewch gynnig ar ddefnyddio deunyddiau naturiol i gael lliw gwahanol o'ch dewis.

Pinc neu goch ysgafn: betys ffres, llugaeron, neu fafon wedi'u rhewi

Melyn golau: croen oren neu lemon, topiau moron, hadau seleri

Melyn: tyrmerig mâl

Oren: croen nionod melyn

Gwyrdd golau: dail sbigoglys

Aur-wyrdd: croen afalau melyn


O frown golau i frown tywyll: coffi cryf

Glas: ffrwythau llus mewn tun, neu ddail bresych coch

Dathlu'r Pasg

Darllenwch bennod 2 yn stori'r Eglwys Uniongred, i weld sut maen nhw'n dathlu'r Pasg. Ar gyfer pob un o'r amseroedd sydd yn y blychau yma, ysgrifennwch ble mae'r bobl ar y pryd, a beth maen nhw'n ei wneud. Neu tynnwch eu lluniau.


Nos Sadwrn, ychydig cyn hanner nos




ar hanner nos



Bore Sul, ychydig ar ôl hanner nos



3:00 bore Sul



Llunio eicon

Mae eicon yn cynrychioli un o seintiau'r eglwys. Llun yw eicon o rywun oedd yn byw'n agos at Dduw. Nid addurn yw eicon. Mae'n rhywbeth sy'n tynnu pobl yn nes at Dduw. Arwydd bod Duw gyda'r sant yw'r eurgylch o olau sydd wedi'i baentio o amgylch ei ben.

Pan fydd eiconograffydd (un sy'n gwneud eiconau) yn llunio eicon i'r Eglwys Uniongred, mae'n gweddio cyn dechrau'r gwaith. Wrth ei baentio, mae'n defnyddio cymysgedd o liwiau mwynol naturiol, melyn wy ac olew olewydd. Felly, fe fydd ei baent yn cynnwys tair elfen, sef rhywbeth sydd wedi'i wneud o gynnyrch anifail, o lysiau, ac o fwynau'r ddaear (yn cynrychioli pob rhan o'r byd).


Fe fydd arnoch chi angen

pren neu gerdyn trwchus
brwsys
paent poster

paent gwyn
papur sgrap a phensil
glud PVA

Beth i'w wneud

1. Paratowch y pren neu'r cerdyn trwy ei baentio â phaent poster neu emwlsiwn gwyn. (Trwy wneud hyn yn gyntaf, fe fydd lliwiau eich eicon yn glir.) Gadewch hwn i sychu.
2. Dewiswch sant neu rywun i wneud ei lun ar yr eicon. Dewiswch rywun sy'n dysgu pobl am Dduw. Gwnewch frasluniau o sut lun yr hoffech chi ei wneud ar eich eicon.
3. Paentiwch y llun ar yr eicon. Os yn briodol, paentiwch eurgylch gyda phaent lliw aur o amgylch y pen.
4. Wedi i'r paent sychu'n hollol sych, rhowch got o lud PVA drosto fel farnais, i'w wneud yn sgleiniog ac i warchod y llun.



Stori Santes Melangell

Mae paragraffau stori'r Santes Melangell wedi'u hargraffu yn y drefn anghywir yma. Torrwydch y blychau allan, darllenwch rannau'r stori a'u hail osod yn y drefn gywir.

Diflannodd yr ysgyfarnog i'r llwyni, ac wrth i'r helwyr ei ddilyn, fe ddigwyddodd rhywbeth rhyfedd. Trodd y cŵn yn ôl mewn braw. Ni allai arweinydd yr helwyr symud y corn oddi wrth ei wefusau, ond eto ni allai ganu'r corn.

Cafodd hyn argraff fawr ar y Tywysog Brochwel. Aeth yn ei ôl adref, heb ladd yr un anifail y diwrnod hwnnw. Rhoddodd y dyffryn yn rhodd i Melangell i fod yn eiddo iddi am byth, fel man i weddio a man fyddai'n lloches i rai oedd mewn angen.


Cychwynnodd yr helwyr i'r dyffryn coediog, oedd yn llawn anifeiliaid gwylt. Fe aethon nhw i mewn i ganol y llwyni gwyrdd. O fewn ychydig funudau, dechreuodd y cŵn gyfarth. Roedden nhw wedi codi ysgyfarnog. Canodd arweinydd yr helwyr ei gorn. Chwarddodd yr helwyr wrth feddwl am yr hwyl y bydden nhw'n ei gael yn hela'r ysgyfarnog.

Er mawr syndod iddo, fe welodd lecyn clir a merch ifanc yn sefyll yno'n gweddio. Roedd yr ysgyfarnog yn eistedd yn ddiogel wrth ei thraed. Daeth teimlad o heddwch pur dros y Tywysog Brochwel.

Roedd hi'n ddiwrnod braf i fynd i hela yn Nyffryn Pennant yng nghanolbarth Cymru. Galwodd y Tywysog Brochwel, sef tywysog Powys, ei gyfeillion a'i helwyr ynghyd. 'Dewch!' meddai. 'Awn i hela! Dewch â'r cŵn, awn i weld beth welwn ni.'

Roedd y Tywysog Brochwel yn ddyn dewr. Doedd arno ddim eisiau dangos i'w ffrindiau ei fod yn ofnus. Neidiodd oddi ar gefn ei geffyl, tynnodd ei gleddyf a chlirio llwybr iddo'i hun i ganol y dryslwyn. Tybed beth fyddai'n ei weld yno?

Pwy oedd y ferch yma? Holodd y tywysog hi, a chael gwybod mai merch i bennaeth llwyth o lwerddon oedd hi. Roedd ei thad wedi trefnu iddi briodi hen bennaeth y rhyfelwyr yno. Doedd hi ddim eisiau ei briodi, ac roedd hi wedi dianc i Gymru. Roedd wedi dewis byw ei bywyd yn Nyffryn Pennant, gan dreulio'i hamser yno, yn addoli Duw. Wrth iddi hi weddio a dod yn nes at Dduw, roedd yr anifeiliaid o'i chwmpas wedi dod i'w hadnabod yn dda, a dod yn gyfeillgar â hi.



Dysgu am y gymuned

Darllenwch bennod 4 yn stori'r Eglwys Uniongred, a meddyliwch am yr atebion i'r cwestiynau yma am y gymuned y mae modryb Anna a Michael yn perthyn iddi.

1. Ym mha ddinas yn Rwsia y mae'r gymuned?

2. Pa orchymyn yn y Beibl sy'n bwysig i'r mudiad elusennol yma?

3. Nodwch ddwy o'r problemau sy'n wynebu'r ysbyty.


4. Sut mae'r chwiorydd yn gofalu am iechyd corfforol y cleifion?

5. Sut mae'r chwiorydd yn gofalu am iechyd ysbrydol y cleifion?

6. Sut maen nhw'n defnyddio peth o'r arian sy'n cael ei roi iddyn nhw?

7. Nodwch dair ffordd y mae'r gymuned yn helpu pobl oedrannus, digartref.

8. Sut byddech chi'n disgrifio'r bobl sy'n gweithio yn y gymuned?




Helpu eraill

Meddyliwch am wahanol ffyrdd y mae ein llywodraeth ni, neu wahanol fudiadau elusennol, yn helpu'r bobl yma sydd mewn angen.

henoed



pobl wael




pobl ddigartref



Bwydydd masnach deg

Chwiliwch pa fwydydd masnach deg sydd ar gael yn eich archfarchnad neu siopau lleol. Gwnewch restr o'r pethau y gallwch chi eu prynu.

Cynnyrch masnach deg



Ystyriwch pa fwydydd sydd ar gael. Edrychwch trwy lyfrau resipis. Beth allech chi ei baratoi gyda chynnyrch masnach deg yn unig?

Syniadau am resipis masnach deg

salad ffrwythau
ffrwythau wedi'u trochi mewn siocled



Llunio acrostig


Lluniwch acrostig yn seiliedig ar y geiriau yma. Fe allwch chi ddewis enwau cynnyrch masnach deg, neu ddefnyddio enwau'r gwledydd sy'n gwerthu cynnyrch masnach deg. Neu fe allwch chi gynnwys geiriau sydd ag unrhyw beth i'w wneud â masnach deg. Hefyd, mae'n bosib i'r llythrennau sydd gennych chi yma fod yn unrhyw le o fewn y geiriau neu'r brawddegau.

_____	M	_____
_____	A	_____
_____	S	_____
_____	N	_____
_____	A	_____
_____	CH	_____
_____	D	_____
_____	E	_____
_____	G	_____



Ysgrifennu llythyr

Dychmygwch eich bod yn rhywun sy'n tyfu bananas ac yn eu gwerthu trwy'r system masnach deg. Ysgrifennwch lythyr at bobl Cymru, yn sôn am eich bywyd ac yn dweud pam y byddech chi'n hoffi iddyn nhw brynu bananas masnach deg.



Fy Ngeiriadur

Fe fyddwch chi'n dod ar draws nifer o eiriau newydd yn y stori *Archwilio'r Eglwys Unionged*. Cadwch gofnod o'r geiriau newydd, ynghyd â'u hystyron.

eicon

llun sant, mae'n cael ei ddefnyddio i ddod â phobl yn nes at Dduw

cynulleidfa

grŵp o bobl yn cwrdd â'i gilydd yn yr eglwys i addoli

arogldarth

mwg ag arogl persawrus arno, sy'n cael ei greu wrth losgi gwm neu sbeis

Gwneud llyfr dosbarth o eiconau

1. Dysgu am eiconau

Chwiliwch yn y llyfrgell, neu ar y rhyngwyd, i ddod o hyd i wybodaeth am eiconau'r Eglwys Unionged.


2. Dewis eich seintiau

Chwiliwch pwy yw'r bobl sy'n cael eu hystyried yn seintiau gan yr Eglwys Unionged. Chwiliwch ar y rhyngwyd trwy deipio geiriau allweddol fel "orthodox church saints". Penderfynwch pa seintiau rydych chi eisiau eu cynnwys yn y llyfr dosbarth. Penderfynwch pwy sy'n mynd i ysgrifennu am ba sant.

seintiau

3. Ysgrifennu tudalen

Ar eich tudalen, gosodwch lun a gwybodaeth am fywyd y sant. Fe allech chi ysgrifennu am hanes bywyd y sant ar ffurf stori neu fel cyfres o bwyntiau bwled. Gwnewch eich tudalen yn ddeniadol trwy ddefnyddio WordArt, borderi, gwahanol ffontiau a gwahanol liwiau. Pan fyddwch chi'n hapus â'ch tudalen, argraffwch hi.



Cyngor defnyddiol

Mae sawl ffordd o gopio lluniau oddi ar y rhyngwyd i'ch dogfen. Un ffordd yw agor ffenestr destun ar y cyfrifiadur yn ogystal â phorwr y rhyngwyd. Amlygwch eich llun a chlicio arno, a'i lusgo'n syth i'r ffenestr destun.

4. Gwneud llyfr

Rhwymwch dudalennau pawb gyda'i gilydd i wneud un llyfr dosbarth.

Crefyddau'r Byd Heddiw

Llawlyfr athrawon

Mae'r llawlyfr athrawon yn rhan o Gyfres Crefyddau'r Byd Heddiw, sy'n cynnwys saith llyfr stori ar gyfer plant 8 -11 mlwydd oed. Yn y gyfres mae'r disgyblion a'r athrawon yn cael eu gwahodd i ymuno â dau blentyn o'r enw Rhys a Sara sy'n dysgu mwy am eu ffrindiau o saith traddodiad crefyddol:

- Eglwys Anglicanaidd
- Bwdhaeth
- Eglwys Unionged Ddwyreiniol
- Hindŵaeth
- Islam
- Iddewiaeth
- Sikhiaeth

Mae'r llawlyfr athrawon yn rhoi:

- gwybodaeth gefndirol gynhwysfawr am y saith traddodiad crefyddol
- gweithgareddau dosbarth
- taflenni gwaith y mae'n bosib eu llungopïo
- rhestr geiriau allweddol

